**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**11eg Mai 2009**

**ARGYMHELLION GAN WEITHGOR Y CYNLLUN LLEIHAU RISG**

**Adroddiad gan Dawn Docx**
**Dirprwy Brif Swyddog Tân**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** Hysbysu aelodau o gynigion gweithgor y Cynllun Lleihau Risg ar gyfer dogfen ymgynghori'r Cynllun Lleihau Risg.

**2. Cefndir**

2.1 Mae'r Gweithgor Adolygu Tân Wrth Gefn a Risg yn is-grŵp o'r gweithgor lleihau risg ac wedi cwrdd yn rheolaidd rhwng Tachwedd 2008 a Mawrth 2009. Diben y grŵp oedd ystyried a gosod cyfeiriad strategol y Gwasanaeth dros y pump i ddeg mlynedd nesaf gan gynnwys yr ardaloedd fydd yn derbyn ymgynghoriad yn y Cynllun Lleihau Risg nesaf. Ei aelodau oedd y Cynghorwyr T Roberts, S Frobisher, M Ll Davies, B Dunn, G C Evans, P Jeffares, A M Jones, E M Jones, J V Owen a W P Roberts.

**3. Gwybodaeth**

3.1 Bydd yr argymhellion wnaed gan yr is-grŵp yn cael eu hystyried a'u trafod gan weithgor y Cynllun Lleihau Risg fore'r 11eg Mai 2009, a bydd ei argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Panel Gweithredol.

**4. Argymhelliad**

4.1 Fod y Panel Gweithredol yn ystyried argymhellion gweithgor y cynllun lleihau risg ac yn penderfynu sut i symud ymlaen.